## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 15 Hydref, 2018

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 18 Hydref, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 25 Hydref, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 26 Hydref, 2018.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Lewis Davies, Glyn Haynes, Eric Jones, Dylan Rees, Margaret M.Roberts.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Carwyn Jones

(11:00 y. b. tan 11:50 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Strategaeth Addysg Ynys Môn - Moderneiddio Ysgolion (Diweddariad 2018)**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Mabwysiadu Strategaeth Addysg Ynys Môn – Moderneiddio Ysgolion (Diweddariad 2018) fydd yn weithredol o 15 Hydref, 2018 ymlaen.**<br>• **Bod Swyddogion yn cychwyn y broses o ymgynghori yn ardaloedd Band “B” dros y 12 mis nesaf.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adolygu a diweddaru’r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2017/18**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid Corfforaethol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cytuno ac argymell –**<br><br>• **Bod fersiwn derfynol Adroddiad Perfformiad 2017/18 yn cael ei chyhoeddi erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref a bod Swyddogion yn cwblhau'r adroddiad mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio i'w gyhoeddi fel rhan o bapurau'r Cyngor ar gyfer ei gyfarfod ar 22 Hydref.**<br>• **Bod Adran 3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau ar gyfer Datganiad ac Amcanion Llesiant y Cyngor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel swyddogaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn ei chyflawni.**<br>• **Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn cael ei hawdurdodi i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r materion sydd wedi eu neilltuo fel swyddogaethau y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn eu cymeradwyo yn y Cyfansoddiad ynghyd ag unrhyw newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud o ganlyniad i adlewyrchu hynny.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Derbyn Adroddiad Perfformiad 2017/18** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn.** |